# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Hydref 2023

Amser: 2.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), P Bright, S Cocks and M Evans

Yn bresennol: Cynghorwyr Jane Mudd (Arweinydd y Cyngor), Beverly Owen (Prif Weithredwr), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol), Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol), Paul Jones (Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd), Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaeth), Donald Mutale (Uwch-swyddog Cydraddoldeb), Amanda Bouadana (Partner Busnes Uwch AD a DS), Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Al-Nuaimi, B Davies, G Horton, C Baker-Westhead and L James

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Gofynnodd y Pwyllgor a dderbyniwyd ymateb yn dilyn y llythyr a anfonwyd at Brifysgol De Cymru.

- Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol y Pwyllgor ei fod wedi derbyn ymateb ar unwaith gan PDC a oedd yn dweud y byddai trafodaeth fewnol a chytunodd i ofyn am gamau dilynol.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Medi 2023 yn gofnod gwir a chywir.

3 **Adroddiad Hunanasesu Cynllun Corfforaethol Blynyddol 2022/23**

**Gwahoddedigion:**

**Y Cynghorydd Jane Mudd, Arweinydd y Cyngor,**
**Beverly Owen (Prif Weithredwr),**
**Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol),**
**Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol)**
**Paul Jones (Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd)**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad, a rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o'r adroddiad.

**Amcan Lles 1**

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o'r amcan hwn.

**Cwestiynau:**

Holodd y Pwyllgor sut cyfrifwyd niferoedd yr ymwelwyr.

- Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod y niferoedd hyn yn seiliedig ar ddangosydd cenedlaethol. Cytunodd y Prif Weithredwr i ddarparu ateb y tu allan i'r cyfarfod ar gyfer y Pwyllgor.

Dywedodd y Pwyllgor nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ddiweddariad ar gyfer y Strategaeth Economaidd ac Uwchgynllun Canol y Ddinas ac roeddent yn teimlo ei bod hi'n anodd cymharu heb hyn. Amlygodd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn ymwneud ag adfywio'r llyfrgell ganolog a Gwesty'r Mercure ond nad oedd yn cynnwys unrhyw ddatblygiad mawr yng nghanol y ddinas. Teimlai'r Pwyllgor y dylid archwilio cydweithio â'r Celtic Manor a'r ICC i ddenu busnesau i'r ardal. Teimlai'r Pwyllgor nad oedd enghreifftiau o lwyddiannau na meysydd i'w gwella o fewn yr adroddiad.

- Nododd yr Arweinydd fod y Strategaeth Twf Economaidd ac Uwchgynllun Canol y Ddinas yn adroddiadau ar wahân. Cytunodd yr Arweinydd fod pwynt y Pwyllgor ynghylch dim diweddariad trosfwaol yn deg ond nododd fod cynnydd yn erbyn yr amcanion yn y cynllun yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu a'u bod ar gael i'r cyhoedd. Nododd yr Arweinydd fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i gytuno yn ddiweddar yn y cyngor llawn a thynnodd sylw at bwysigrwydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y mae'n rhaid ei ystyried yn ei gyfanrwydd, nid mewn perthynas â Chasnewydd yn unig. Amlygodd yr Arweinydd hefyd fod Microsoft yn dod i Gasnewydd ar ôl gwneud buddsoddiad sylweddol yn y rhanbarth a bod *Keep Looking Ahead* (KLA) yn ehangu yng Nghasnewydd. Mae hyn yn cynnwys symud safleoedd i ganolbwyntio ar eu gweithgareddau Ewropeaidd a oedd yn dangos y berthynas waith gyda Chyngor Dinas Casnewydd, cwmnïau rhyngwladol mawr, a Llywodraeth Cymru.

- Nododd yr Arweinydd y bu newid sylweddol mewn manwerthu ledled y DU a Chasnewydd gydag ehangu busnesau bach, annibynnol. Nododd yr Arweinydd fod y Tîm Cymorth Busnes yn darparu cefnogaeth ac yn ddiweddar wedi lansio Grant Cymorth Busnes a ariannwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Tynnodd yr Arweinydd sylw at benderfyniad y Cabinet i ddarparu rhyddhad ardrethi i fusnesau canol y ddinas a fyddai, o'i gyfuno â rhyddhad ardrethi Llywodraeth Cymru, yn golygu na fyddai'n rhaid i fusnesau cymwys dalu unrhyw ardrethi busnes. Roedd yr Arweinydd yn teimlo, yn ogystal â darparu cymorth a mynediad at gyllid, y darparwyd yr amgylchedd ariannol gorau posib i fusnesau. Nododd yr Arweinydd fod cyfran sylweddol o ganol y ddinas wedi'i throi'n fannau preswyl a'u bod yn gwneud cynnydd yn erbyn y cynllun creu lleoedd.

- Amlygodd y Prif Weithredwr fod yr adborth a dderbyniwyd gan KLA yn gadarnhaol a nododd fod yr adroddiad yn anelu at gydbwyso llwyddiannau a heriau. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i Bwyllgor Fforwm y Gymuned Fusnes, sy'n cael ei arwain gan fusnesau, a sicrhaodd y Pwyllgor fod Swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â busnesau a buddsoddwyr allweddol canol y ddinas. Ystyriodd y Prif Weithredwr

gymhlethdod adfywio canol y ddinas a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y cyngor yn cymryd rhan mewn sgyrsiau ynghylch adeiladau gwag. Ailadroddodd y Prif Weithredwr fod manwerthu yn newid, ac mae'n bwysig edrych ar ailbwrpasu canol y ddinas i gynnwys hamdden, dysgu a gweithio.

Cytunodd y Pwyllgor gyda'r pwyntiau a godwyd a theimlai y dylid blaenoriaethu denu mwy o fyfyrwyr i fyw yng nghanol y ddinas yn y dyfodol. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd mewn denu mwy o sefydliadau sy’n gweithio o’r swyddfa i ganol y ddinas. Teimlai'r Pwyllgor fod y Mercure yn ddatblygiad llwyddiannus, a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i ddenu mwy o westai mawr i Gasnewydd, ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a allai ddod yn sgil y rhain.

- Dywedodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor eu bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda gwahanol gwmnïau ar wahanol lefelau o gynnydd ond na allent rannu mwy o wybodaeth ar hyn o bryd oherwydd natur fasnachol gyfrinachol y trafodaethau hyn.

Teimlai'r Pwyllgor fod gan gynnig treftadaeth Casnewydd botensial a bod angen mwy o amlygrwydd arno yn yr adroddiad.

- Cytunodd y Prif Weithredwr y dylid tynnu sylw at hyn a byddai'n trafod cynnwys treftadaeth yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y blaenoriaethwyd ardaloedd coch wrth eu hadolygu'n chwarterol.

- Nododd y Prif Weithredwr y trafodwyd hyn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a'i fod yn ymwneud â dod o hyd i gydbwysedd rhwng cyflawni uchelgais a phennu cyllideb gytbwys.

**Amcan Lles 2**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd grynodeb o'r amcan hwn.

**Cwestiynau:**

Nododd y Pwyllgor fod tyllau yn yr heol yn broblem fawr a gofynnodd beth oedd y prif reswm dros hyn.

- Nododd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd mai priffyrdd yw'r ased unigol mwyaf ac roedd angen dros £100 miliwn o waith cynnal a chadw. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cefnogi'r dewisiadau a wnaed ynghylch buddsoddiadau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod dirywiad naturiol mewn priffyrdd ond bod y drefn ar gyfer archwilio yn cael ei dilyn i safonau deddfwriaethol i sicrhau bod yr ased yn ddiogel.
- Cydnabu'r Arweinydd yr heriau o ran rheoli priffyrdd a nododd y bu dyraniad sylweddol o danwariant o wasanaethau eraill i Briffyrdd yn y flwyddyn flaenorol i liniaru hyn.

Holodd y Pwyllgor pam nad oedd cyflwr palmentydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

- Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod yr wybodaeth yn ddangosydd cenedlaethol ac y gellid defnyddio'r system sgorio bellach ar gyfer troedffyrdd. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod hynny'n rhywbeth i'w

ystyried yn y dyfodol a chytunodd fod troedffyrdd yn bwysig o ran annog teithio llesol.

Holodd y Pwyllgor a fu unrhyw drafodaethau trawsffiniol ynghylch y gamlas.

- Sicrhaodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pwyllgor fod cyfathrebu cyson gydag awdurdodau cyfagos. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod leinin newydd wedi'i osod i ganiatáu ar gyfer cadw dŵr yn well. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod mwy o ymwneud gweithredol ag Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a bod angen mwy o fuddsoddiad i system y gamlas a fyddai'n dechrau cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf.

**Amcan Lles 3**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol dros Wasanaethau Cymdeithasol grynodeb o'r amcan hwn.

**Cwestiynau:**

Gofynnodd y Pwyllgor a ellid egluro Dileu yn fanylach.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol dros Wasanaethau Cymdeithasol ei fod yn rhan o raglen Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar elw o fewn gofal cymdeithasol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn effeithio ar ofal preswyl a maethu plant. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod 18 i 20 o blant ar hyn o bryd yn cael eu lleoli gyda darparwyr preswyl preifat ac o 2026-2027 ni fyddai'r darparwyr hynny bellach yn gallu cofrestru i ddarparu gwasanaethau. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod 44 o blant ar hyn o bryd wedi'u lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol a oedd yn fusnesau preifat yn darparu gwasanaethau maethu a byddai'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei drafftio yn dod â gallu'r sefydliadau hyn i weithredu yng Nghymru i ben. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai Dileu yn golygu na all awdurdodau lleol Cymru brynu lleoliadau gyda sefydliadau sy'n gwneud elw yng Nghymru a Lloegr. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod grantiau sylweddol wedi'u derbyn i wella darpariaeth gwasanaethau eraill, ond roedd yr amgylchiadau'n heriol oherwydd bod y lleoliadau hyn yn cael eu dileu..

Nododd y Pwyllgor fod y mesurau asesu cyffredinol yn wyrdd ac yn oren, ond roedd y mesurau unigol yn goch a oedd yn ymddangos yn anghyson. Nododd y Pwyllgor y pwysau ar wasanaethau cymdeithasol a diolchodd i staff y gwasanaethau cymdeithasol am eu gwaith caled.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol dros Wasanaethau Cymdeithasol y bu trafodaeth ynghylch adrodd a dangosyddion perfformiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod trafodaethau wedi bod ynghylch cynnwys mwy o ddangosyddion lleol i dynnu sylw at fanylion a gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod cydbwysedd yn bwysig gan fod staff mewn amgylchedd heriol ond nad oeddent yn methu. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod perfformiad hefyd yn ymwneud â chydweithio â phartneriaethau ar draws y ddinas ac asiantaethau.
- Nododd y Prif Weithredwr ei bod yn anodd gwneud asesiad cyffredinol gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad yn yr adroddiad yn unig a theimlai nad oedd yn ymwneud â dangosyddion yn unig, ond sut mae prosiectau'n datblygu. Nododd y Prif Weithredwr sylw'r Pwyllgor a chytunodd i fyfyrio arno yn y dyfodol.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd grynodeb o'r amcan hwn.

Holodd y Pwyllgor am y cynnydd o ran defnyddio eiddo gwag i gefnogi ymdrechion yn y maes hwn. Teimlai'r Pwyllgor y gellid defnyddio eiddo gwag ar gyfer llety dros dro/byr.

- Cytunodd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod edrych ar eiddo gwag yn hollbwysig.

- Nododd Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod heriau o ran defnyddio eiddo gwag gan fod angen eu codi i'r safonau gofynnol ar gyfer byw ynddynt. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol fod y blynyddoedd blaenorol wedi bod yn heriol iawn, ac roedd y galw am wasanaethau wedi bod yn fwy nag erioed, gyda gwaith yn cael ei wneud ar raglenni'n cynnwys cyllid ychwanegol i ddatblygu'r rhain.
- Cydnabu'r Arweinydd yr heriau y mae eiddo gwag yn eu cyflwyno ond teimlaina ddylid rhagdybio bod pob eiddo gwag yn anfanteisiol i gymunedau. Nododd yr Arweinydd nad oes modd anwybyddu effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw a'r her o fforddiadwyedd. Cytunodd yr Arweinydd y bu cynnydd yn y galw am wasanaethau wedi'r pandemig ac nad oedd y lwfans tai lleol wedi cadw i fyny â chwyddiant. Dywedodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor fod mwy o gymorth statudol erbyn hyn, ond bod nifer y llety yn llai. Nodwyd bod hyn yn fater penodol i Gasnewydd fel ardal wasgaru o'i chyfuno â phwysau ychwanegol ar y stoc dai. Cymeradwyodd yr Arweinydd y Pennaeth Gwasanaeth newydd fel un sy'n gwneud gwaith rhagorol.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sylw'r Arweinydd nad yw pob eiddo gwag yn anfanteisiol i gymunedau.

- Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn gywir peidio â chymryd yn ganiataol bod pob eiddo gwag yn anfanteisiol i gymuned oherwydd eu bod yn wag yn unig gan nad yw pob un ohonynt mewn cyflwr gwael neu wedi dirywio y tu hwnt i'w hatgyweirio.
- Nododd y Cadeirydd os oes gan y Pwyllgor faterion penodol am eiddo gwag, bod angen ei godi yn y fforwm cywir.

**Amcan Lles 4**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol grynodeb o'r amcan.

**Cwestiynau:**

Nododd y Pwyllgor fod y Strategaeth Ddigidol yn drawiadol ac roedd am gael eglurhad ar ganran y rheolwyr nad ydynt yn cwblhau'r broses wirio gyda staff.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol fod y system flaenorol ar gyfer rheoli cyfarfodydd un i un wedi cael ei disodli gan y system Adnoddau Dynol gyfredol a'i hymgorffori yn iTrent. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod hyn wedi'i gwblhau cyn y pandemig ond nid oedd digon o le i ymgorffori hyn gan nad oedd wedi diwallu anghenion y defnyddwyr hyd yn ddiweddar. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith wedi'i wneud gyda datblygwyr a rheolwyr i wella'r system a bod y ffigur yn adlewyrchu rheolwyr yn cofnodi eu cyfarfodydd un i un ar y system, nid cyfanswm y cyfarfodydd un i un sy'n cael eu cynnal.

- Nododd Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid (PPT) fod y ffigur wedi cynyddu i dros 60% ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn a bod y ffigur targed yn debygol o fod wedi ei osod yn rhy uchel wrth ddychwelyd ar ôl COVID-19.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol, er bod lle i wella yn y broses o gofnodi ar y system, ei bod yn annheg tybio nad oes gan reolwyr gyfarfodydd un i un gan y gellid cofnodi'r rhain yn wahanol.   Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod lles staff yn cael ei ystyried, yn enwedig gweithwyr hybrid.  Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hwn yn ddarn o waith hollbwysig ac mae angen cynyddu ymgysylltiad i ddatblygu a chadw staff.  Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod rhan o'r rheswm dros yr adroddiad yn ymwneud â newid mewn rheoliadau, ond roedd yn arfer da gallu defnyddio data i nodi problemau a chynnig hyfforddiant a chefnogaeth.

Nododd y Pwyllgor fod y ffigur a gofnodwyd ar gyfer trosiant staff bron i 20% a gofynnodd am fwy o gyd-destun, a gofynnodd a allai cyfarfodydd un i un rheolwyr fynd i'r afael â hyn yn rhannol.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol nad oeddent yn cydnabod y ffigur hwnnw, ond 10-15% fyddai'r amcangyfrif trosiant arferol. Dylid disgwyl lefel o drosiant, ond roedd trosiant annisgwyl neu heb ei gynllunio yn codi pryder.  Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod nifer o ffactorau yn nifer y trosiant, gan gynnwys cyllid grant yn dod i ben, contractau dros dro a staff sy'n gadael am gyfleoedd eraill.

Teimlai'r Pwyllgor fod cynnydd mewn caffael yn drawiadol ac y dylid ei amlygu yn yr adroddiad.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredol nad oedd yr adroddiad yn pwysleisio rhai agweddau cadarnhaol yn ddigonol, ond ailadroddodd mai’r nod gyffredinol oedd cydbwyso'r heriau a'r llwyddiannau.

**Casgliadau:**

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut y cyfrifir nifer yr ymwelwyr â Chasnewydd.
- Argymhellodd y Pwyllgor ystyried grwpio'r graddfeydd COG yn ôl amcan yn hytrach na sgorio gan y gallai hyn wneud yr asesiad yn haws ei ddeall.
- Argymhellodd y Pwyllgor gynnwys sgorio ar gyfer troedffyrdd mewn adroddiadau yn y dyfodol, gan fod asesiadau priffyrdd eisoes wedi'u cynnwys.
- Roedd y Pwyllgor yn falch o weld llwyddiannau yn yr adroddiad megis caffael blaengar a'r cynnig treftadaeth. Teimlai'r Pwyllgor y gellid amlygu'r llwyddiannau hyn yn fwy yn yr adroddiad i adlewyrchu'r canlyniadau cadarnhaol.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid adolygu'r tabl Penderfyniadau a Chyflawniadau Allweddol fel nad yw'r lliwiau a ddefnyddir yr un fath â'r rheini a ddefnyddir yn y system COG i sicrhau gwahaniad clir oddi wrth y mesur perfformiad hwn.

4 **Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23**

**Gwahoddedigion:**
**Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol)**
**Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid)**
**Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaeth)**
**Donald Mutale (Uwch-swyddog Cydraddoldeb)**
**Amanda Bouadana (Partner Busnes Uwch AD a DS)**

Cyflwynodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid (PPT) yr adroddiad a rhoddodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth ac Uwch-swyddog Cydraddoldeb grynodeb o'r adroddiad.

**Cwestiynau:**

Nododd y Pwyllgor fod gwelliant sylweddol wedi bod ers y llynedd.

Holodd y Pwyllgor pam mae'r adran ar Addysg yn canolbwyntio ar waharddiadau a phresenoldeb ond nid ar gyrhaeddiad.

- Roedd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth yn ansicr nad oedd cyrhaeddiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, ond sicrhaodd y Pwyllgor y byddai'n cael ei gynnwys yn y cynllun nesaf. Amlygodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth y byddai gwybodaeth ar gael mewn adroddiadau addysg eraill a bod Llywodraeth Cymru wedi oedi rhag adrodd gorfodol ar y safonau hyn yn ystod COVID-19.

- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol y byddai cyrhaeddiad Addysg yn cael ei fonitro yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl. Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn dangos sut roedd yr awdurdod yn casglu data ar bresenoldeb ac yn derbyn bod canlyniadau'r broses yn cael eu hadrodd mewn mannau eraill ond ni soniwyd am y broses o ran cyrhaeddiad.

- Nododd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol adborth y Pwyllgor ac awgrymodd y gallai'r Pwyllgor argymell ei fod yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.

- Nododd yr Uwch-swyddog Cydraddoldeb eu bod, wrth osod amcanion, yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Hawliau Dynol Cydraddoldeb ac mae presenoldeb a gwaharddiadau wedi'u cynnwys yn yr amcanion hyn.

Nododd y Pwyllgor nad yw pob preswylydd yn hyddysg mewn TG a holodd beth arall y gellid ei wneud i gefnogi'r demograffig hwn. Nododd y Pwyllgor hefyd fod Gorymdaith Pride wedi bod yn llwyddiannus a'i fod am ddiolch i bawb a gymerodd ran.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol -Trawsnewid a Chorfforaethol fod pobl sy'n gallu defnyddio TG i gael mynediad at wasanaethau yn creu mwy o gapasiti ar gyfer argaeledd mynediad nad yw'n ddigidol i'r rheini sydd angen cymorth. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai adolygiad o wasanaethau cwsmeriaid o'u dechrau i'w diwedd a byddai un o'r amcanion yn mynd i'r afael â mynediad teg a oedd yn cynnwys pobl yn cael mynediad priodol at wasanaethau.

Holodd y Pwyllgor a gofnodwyd nifer y bobl nad ydynt yn gallu defnyddio'r gwasanaethau ar-lein sydd wedi hynny'n ffonio'r Ganolfan Gyswllt.

- Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chorfforaethol y gallent gael gafael ar y data hwnnw ac roedd tystiolaeth bod mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau ar-lein.

Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn amlinellu sut mae'r cyngor yn casglu llawer o ddata, ond mae'r unig ddata a ddarperir mewn unrhyw fanylder yn ymwneud â gweithlu'r cyngor.

- Nododd y Rheolwr Pobl a Phartneriaeth fod data'r gweithlu yn ofyniad statudol ar gyfer adrodd.

- Eglurodd yr Uwch-swyddog Cydraddoldeb fod rhai meysydd lle mae data wedi'i gynnwys gan ei fod yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol a'i fod wedi'i adrodd mewn cynlluniau eraill gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth.

Nododd y Pwyllgor fod trosiant staff uchel yn rhoi pwysau ar bob swyddog.

- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol -Trawsnewid a Chorfforaethol y nod gyffredinol o recriwtio a chadw talent; mae dwy ran o dair o'r gweithlu mewn ysgolion gyda'r gweddill yn darparu gwasanaethau amrywiol a byddai trosiant yn wahanol drwy gydol pob gwasanaeth.

- Sicrhaodd yr Uwch-reolwr Busnes AD ac OD y Pwyllgor y byddent yn gallu cael gafael ar y data hwnnw a'i ddadansoddi er mwyn deall pam fod pobl yn symud ymlaen a gellir bwydo hyn yn ôl i wasanaethau. Nododd yr Uwch-reolwr Busnes AD a DS fod rhai pobl yn gadael am gyfleoedd datblygu lle nad oes swydd ar gael o fewn y cyngor ond eu bod yn gadael gyda phrofiad cadarnhaol o'u cyflogaeth yn y cyngor.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y data statudol yn cynnwys diswyddiadau.

- Sicrhaodd yr Uwch-reolwr Busnes AD a DS y Pwyllgor mai adleoli oedd yr opsiwn cyntaf bob amser i staff sydd mewn perygl o gael eu diswyddo. Nododd yr Uwch-reolwr Busnes AD a DS eu bod yn cydweithio â staff ac undebau llafur ond mewn sefyllfaoedd heriol o ran y gyllideb, roedd diswyddiadau, gwaetha'r modd, yn anochel.

**Casgliadau:**

- Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am nifer y bobl sy'n cysylltu â Chanolfan Gyswllt y Ddinas dros y ffôn gan nad oeddent yn gallu defnyddio gwasanaethau digidol.
- Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig gwasanaethau hygyrch a defnyddiadwy sy'n bodloni gofynion trigolion wrth ryngweithio â'r cyngor. Amlygodd y Pwyllgor nad oedd hyn yn gyfyngedig i'r adroddiad hwn ond ei fod yn thema ehangach ar draws y cyngor.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys cyrhaeddiad disgyblion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth am y data a ddefnyddir i ddangos yr angen am newidiadau neu welliannau, ac i fesur y canlyniadau, mewn adroddiadau.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

**a) Y Flaenraglen Waith**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw newidiadau i'r Flaenraglen Waith.

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu ddyddiad y cyfarfod nesaf fel y 27 Hydref 2023.

**b) Materion yn Codi**

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu fod camau gweithredu yn dal i fod heb eu cymryd, ond dilynwyd i fyny ar y rhain.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ysgrifennu at Swyddogion i brysuro'r ymateb.

- Cytunodd y Cadeirydd i hyn.

6 **Digwyddiad Byw**

Gellir gweld recordiad y cyfarfod yma.

Daeth y cyfarfod I ben am 4:05pm